Akshita Lakhiwal

Pam ddylai aelodau CGGC bleidleisio drosof i fod yn ymddiriedolwr?

Wedi fy magu mewn cymuned lle roedd storïau yn fwy na dim ond geiriau, dysgais yn gynnar y gall cyfathrebu danio newid. Mae'r gred hon wedi llywio fy ngyrfa, o rymuso cymunedau fel Swyddog Ymgysylltu Sero Net TPAS Cymru i chwyddo lleisiau nas clywir mewn newyddiaduraeth darlledu.

Yr hyn sy'n fy nhynnu at CGGC yw ei ymrwymiad dwfn i degwch, amrywiaeth a chynhwysiant – gwerthoedd rwyf wedi'i hyrwyddo ym mhob rhan o'm gwaith. Yn fy rôl bresennol, rwyf wedi gweld sut gall ymdrechion cyfunol lunio dyfodol cynaliadwy, sy'n adleisio cenhadaeth CGGC i helpu mudiadau gwirfoddol i wneud mwy o wahaniaeth gyda'i gilydd. Mae fy mhrofiad o weithio gyda chymunedau amrywiol a rheoli prosiectau sy'n meithrin ymgysylltiad yn cyd-fynd â nodau CGGC.

Rwy'n edrych ymlaen at gyfrannu fy sgiliau mewn cyfathrebu, rheoli prosiect a llywodraethu i helpu CGGC i barhau â'i etifeddiaeth o weithredu gwirfoddol. Gyda dealltwriaeth frwd o dueddiadau digidol a chyfathrebu strategol, rwyf mewn sefyllfa dda i gefnogi mentrau CGGC yn y dirwedd bresennol sy'n prysur ddatblygu. Fel ymddiriedolwr, byddem yn gweithio i sicrhau bod pob llais yn cael ei glywed, a gyda'n gilydd, byddem yn parhau i yrru newid positif ar hyn a lled Cymru.

Diolch am ystyried fy nghais. Rwy'n gyffrous o gael y cyfle i ymuno â thîm sy'n credu mewn pŵer gweithredu cyfunol i adeiladu dyfodol mwy disglair a chynhwysol.